# Rhaglenni Gwledig

## Cefnogi'r broses o drosglwyddo i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a Sero Net

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Effeithlonrwydd ac Arallgyfeirio ar Ffermydd

## Cynllun Grantiau Bach – Dechrau Busnes Garddwriaeth

Bydd y cynllun Grantiau Bach - Dechrau Busnes Garddwriaeth yn annog sefydlu busnesau garddwriaeth masnachol newydd, naill ai fel elfen arallgyfeirio o fewn busnes amaethyddol sy'n bodoli eisoes, neu fel menter newydd annibynnol.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus, p'un a ydynt yn fusnesau amaethyddol sy'n bodoli eisoes sy'n dymuno arallgyfeirio neu'n fusnesau newydd, neu fentrau newydd yn cael cyllid sbarduno (grant untro o £3,000), i helpu i liniaru'r risg ariannol o fuddsoddi mewn menter newydd.

Mae sector garddwriaeth bywiog yn uchel ar agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu diwydiant amaethyddol cynaliadwy gan ei fod yn darparu amrywiaeth o fanteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.

Bydd cyllid yn annog y defnydd o dechnoleg newydd a thechnoleg ddatblygol, yn darparu cyfleoedd i greu ffrwd incwm amrywiol ar gyfer busnesau fferm sy'n bodoli eisoes yng Nghymru, yn sefydlu mentrau gwledig newydd ac yn creu cyfleoedd cyflogaeth.

Bydd y cyfnod ymgeisio cyntaf yn agor ar 25 Mai 2022, gyda cheisiadau i ddod i law erbyn 29 Mehefin 2022.

**I gael rhagor o wybodaeth am sut i wneud cais ewch i:**

https://llyw.cymru/grantiau-a-thaliadau-gwledig